# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 29 Chwefror 2000

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi dangos buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Allgáu Cymdeithasol (Diwygio Polisi Gwariant Cyhoeddus)

**C6 Phil Williams:** Pa agweddau ar bolisi gwariant cyhoeddus y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu gofyn i'r Trysorlys eu diwygio, drwy'r dulliau priodol, er mwyn cyflymu'r gwaith o leihau allgáu cymdeithasol yng Nghymru? (OAQ3726)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfarfûm eisoes â Phen-ysgrifennydd y Trysorlys a thrafod amrediad o faterion sydd yn gysylltiedig â gwariant cyhoeddus yng Nghymru. Achubais ar y cyfle i bwysleisio mor bwysig yw gwella perfformiad Cymru er mwyn lleihau allgáu cymdeithasol.

### Allgáu Cymdeithasol (Hyrwyddo'r 'Economi Wybodaeth')

**Q7 Geraint Davies:** Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu sicrhau na fydd cynlluniau i hyrwyddo'r 'economi wybodaeth' yn gwaethygu allgáu cymdeithasol yn y Cymoedd? (OAQ3723)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae hybu cynhwysiant cymdeithasol a chyfle cyfartal yn flaenoriaethau pennaf i'r Cynulliad. Yr ydym ni, a'n cydweithwyr mewn Llywodraeth ganolog, yn benderfynol o ymdrechu i'r eithaf i osgoi 'agendor digidol' rhwng 'y rhai sydd â digon' o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'r 'rhai nad oes ganddynt ddim'. Yr ydym yn darparu £18 miliwn dros dair blynedd i gynnal strategaeth gynhwysfawr mewn addysg TGC a fydd yn ehangu'r mynediad at gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd. Cyhoeddir cynigion manwl cyn hir. At hynny, disgwyliwn y bydd y Brifysgol i Ddiwydiant a Choleg Digidol Cymru yn hybu'r galw am ddysgu gydol oes ymysg busnesau ac unigolion ym mhob rhan o Gymru ac yn hyrwyddo argaeledd a mynediad at ddysgu, yn enwedig drwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Yn ychwanegol at hynny, mae darlledu digidol yn amlygu'r posibiliad o wasanaethau gwybodaeth newydd, a chydgyfeirio technolegau teledu a rhyngrwyd yn y tymor hir.

### 'Gwell Cymru' (Anghenion Cymdeithasol)

**C8 Brian Hancock:** Sut y mae anghenion economaidd penodol Cymru yn cael eu hadlewyrchu a'u trin yng nghynllun strategol y Llywodraeth, 'Gwell Cymru'? (OAQ3721)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Datblygwyd y fersiwn drafft o 'Gwell Cymru' ochr yn ochr â'r strategaeth ddatblygu economaidd genedlaethol. Mae'n cynnwys dadansoddiad o'n heconomi a chynllun gweithredu 30-pwynt y bwriedir iddo adeiladu ar ein cryfderau ac ymdrin â meysydd gwan. Daw'r ymgynghori i ben ar 3 Mawrth ac, ar ôl trafodaeth oddi mewn i'r Cynulliad, yr ydym wedi ymrwymo i gyhoeddi'r cynllun terfynol erbyn diwedd y mis hwnnw.

### Hybu'r Broses Ddatganoli

**C9 Owen John Thomas:** Beth y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu ei wneud i alluogi'r Cynulliad i hybu'r broses ddatganoli? (OAQ3713)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fel y dywedais yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Chwefror, y dasg yw defnyddio pwerau'r Cynulliad mewn modd adeiladol a chydweithredol a fydd yn ennyn sêl bendith holl bobl Cymru. Nid tasg i mi yn unig yw hyn—mae gan bob Aelod ran i'w chwarae.

**Cyfraniad Cymreig i Strategaeth Ledled Ewrop ar Faterion Cymdeithasol**

**C10 Dafydd Wigley:** Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu sicrhau cyfraniad Cymreig i ddatblygu strategaeth ledled Ewrop i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, lleihau tlodi a rhoi terfyn ar y gwahaniaethau rhwng rhanbarthau a thiriogaethau Ewrop? (OAQ3728)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae rhaglenni'r cronfeydd strwythurol, ar ôl eu cytuno â'r Comisiwn Ewropeaidd, ynghyd â rhaglenni adfywio a noddir gan y wladwriaeth, wedi eu bwriadu i wella lefelau ffyniant yng Nghymru a'u dod yn nes at y cyfartaledd Ewropeaidd.

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i gynllun gweithredu i hybu cynhwysiant cymdeithasol yng Nghymru a fydd yn cynnwys targedau ymestynnol ar gyfer datblygu economaidd a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Er mwyn datblygu targedau comisiynasom Brifysgol Rhydychen i lunio mynegai amddifadedd i Gymru, a fydd yn rhoi gwell gwybodaeth ar lefel leol.

**Amcan 1 (Trafodaethau â Gweinidogion y Trysorlys)**

**C11 Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd adrodd ar unrhyw gynnydd yn y trafodaethau â Gweinidogion y Trysorlys ynghylch cyllid cyfatebol at ddibenion Amcan 1? (OAQ3705)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cefais drafodaethau buddiol â'r Pen-ysgrifennydd am amrediad eang o faterion ariannol sydd o bwys i Gymru, gan gynnwys oblygiadau ariannol Amcan 1.

**Ailnegodi Cytundeb Ad-daliad Fontainbleau (Sylwadau i'r Trysorlys)**

**C12 Elin Jones:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cyflwyno achos i'r Trysorlys ynghylch yr angen i ailnegodi cytundeb ad-daliad Fontainbleau? (OAQ3722)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nad ydwyf. Mae ad-daliad Fontainbleau yn drefniant sydd yn gyfrwng i leihau cyfraniad clir Llywodraeth y DU i'r UE. Nid yw'n fater a ddatganolwyd.

**Annog Partneriaethau Busnes â Phobl Ifanc**

**C13 Jocelyn Davies:** Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu annog partneriaethau busnes â phobl ifanc? (OAQ3717) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn dod i ben (Goblygiadau Ariannol i'r Cynulliad)**

**C14 Glyn Davies:** Beth yw'r goblygiadau ariannol cyffredinol i'r Cynulliad yn sgîl y ffaith mai Cyngor Dinas a Sir Caerdydd sydd i redeg Bae Caerdydd a'r morglawdd wedi i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ddod i ben? (OAQ3707)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nod y Cynulliad yw cynnwys arian olynu oddi mewn i linell sylfaen y grant cymorth o £17.4 miliwn am 2000-01, unrhyw swm y cytunir i'w ddwyn ymlaen am brosiectau sydd heb eu cwblhau, a £23.9 miliwn ym mhob blwyddyn ddiweddarach.

## Addasu Fformwla Barnett

**C15 Michael German:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cynnal ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch yr angen i addasu fformwla Barnett er mwyn i'r Cynulliad fwrw ymlaen â'i flaenoriaethau polisi yn fwy effeithiol? (OAQ3708)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod amrediad eang o faterion sydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys materion ariannol. Nid oes bwriad ar hyn o bryd i addasu fformwla Barnett.

## Hybu Proffil a Delwedd Dydd Gŵyl Dewi

**C16 Janet Davies:** Sut mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu hybu proffil a delwedd 1 Mawrth fel diwrnod cenedlaethol Cymreig? (OAQ3718)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae gan Ddydd Gŵyl Dewi broffil a delwedd sefydledig eisoes. Mae'n darparu ffocws pwysig ar gyfer mynegiadau cenedlaethol o wladgarwch a balchder yn ein diwylliant a'n hiaith arbennig ac ni all neb sydd yn byw yng Nghymru amau nad 1 Mawrth yw diwrnod dathlu Dewi Sant, nawddsant Cymru. Ledled Cymru, dethlir Dydd Gŵyl Dewi mewn ysgolion a chymunedau lleol.

Gwelaf Ddydd Gŵyl Dewi yn gyfrwng i hybu delwedd Cymru dramor. Yr wyf yn sicr y bydd hynny'n nodwedd o hyd yn y camau y bwriadwn eu cymryd i hybu proffil Cymru dramor. Eleni mae Bwrdd Croeso Cymru'n cymryd rhan mewn amrediad o ddigwyddiadau hybu proffil ar 1 Mawrth neu o gwmpas hynny yn yr India, UDA, Awstralia ac Ewrop (gan gynnwys rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig). Mae Canolfan Ewropeaidd Cymru'n trefnu cyfres o ddigwyddiadau o gwmpas Dydd Gŵyl Dewi ym Mrwsel ac mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi paratoi digwyddiadau yn Llundain, Paris a Hollywood.

## Gwella Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi

**C17 William Graham:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i wella dathliadau nawddsant ein gwlad? (OAQ3725)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae gan Ddydd Gŵyl Dewi broffil a delwedd sefydledig eisoes. Mae'n darparu ffocws pwysig ar gyfer mynegiadau cenedlaethol o wladgarwch a balchder yn ein diwylliant a'n hiaith arbennig ac ni all neb sydd yn byw yng Nghymru amau nad 1 Mawrth yw diwrnod dathlu Dewi Sant, nawddsant Cymru. Ledled Cymru, dethlir Dydd Gŵyl Dewi mewn ysgolion a chymunedau lleol.

Gwelaf Ddydd Gŵyl Dewi yn gyfrwng i hybu delwedd Cymru dramor. Yr wyf yn sicr y bydd hynny'n nodwedd o hyd yn y camau y bwriadwn eu cymryd i hybu proffil Cymru dramor. Eleni mae Bwrdd Croeso Cymru'n cymryd rhan mewn amrediad o ddigwyddiadau hybu proffil ar 1 Mawrth neu o gwmpas hynny yn yr India, UDA, Awstralia ac Ewrop (gan gynnwys rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig). Mae Canolfan Ewropeaidd Cymru'n trefnu cyfres o ddigwyddiadau o gwmpas Dydd Gŵyl Dewi ym Mrwsel ac mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi paratoi digwyddiadau yn Llundain, Paris a Hollywood.

## Adolygu Fformwla Barnett

**C18 Peter Black:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gyflwyno achos i Lywodraeth y DU drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn iddi adolygu fformwla Barnett? (OAQ3683)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid oes gennyf fwriad i geisio adolygiad o fformwla Barnett ar hyn o bryd.

## Diwylliant Cenedlaethol a'r Iaith Gymraeg

**C19 Cynog Dafis:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar yr angen i ddatblygu agenda bolisi newydd a gwahanol i hybu proffil ein diwylliant cenedlaethol a'r iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth ohonynt? (OAQ3720)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd arolwg y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 o bolisi celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru yn archwilio polisi, blaenoriaethau, gwariant ac amcanion presennol y Cynulliad. Deallaf fod yr adroddiad i fod i'w gwblhau yng Ngorffennaf 2000 ac edrychaf ymlaen at weld pa argymhellion y bydd y Pwyllgor yn eu cynnig o ran datblygu polisi diwylliannol cenedlaethol.

Mae'r Cynulliad yn bwriadu parhau â pholisïau arbennig er mwyn cefnogi'r iaith Gymraeg. Gwnawn hynny yng ngoleuni'r datganiad diweddar gan y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ei fod yn cefnogi'r amcan o greu Cymru ddwyieithog fel nod genedlaethol gyraeddadwy.

## Adroddiad Waterhouse

**C20 Alison Halford:** Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Waterhouse, pa gamau y bydd y Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i sicrhau na fydd y fath beth yn digwydd eto yng Nghymru? (OAQ3695) [R]

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae angen inni ystyried argymhellion y tribiwnlys yng ngoleuni'r newidiadau helaeth a ddigwyddodd eisoes i sicrhau diogelwch a lles plant mewn gofal. Mae'r Ddeddf Plant 1989 a'r Ddeddf Diogelu Plant 1999 eisoes ar y llyfr statud ac mae Mesur Safonau Gofal a Mesur Plant (Gadael Gofal) y Llywodraeth yn achub y blaen ar lawer o argymhellion y tribiwnlys.

Yng Nghymru, yr ydym eisoes yn cymryd camau i weithredu argymhellion Adolygiad Syr William Utting o Amddiffyniadau ar gyfer Plant. Byddwn yn ailedrych ar y rhaglenni gweithredu presennol i weld beth a allai fod yn angenrheidiol ar ben hynny i sicrhau, hyd y gallwn, na cheir eto mo'r digwyddiadau brawychus a ddisgrifir yn adroddiad y tribiwnlys. Fel cam cyntaf, bydd y Pwyllgor Addysg Cyn-16 a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod yn gynnar ym mis Mawrth i drafod y materion allweddol a sut y gallai'r Cynulliad ddechrau ymdrin â hwy. Byddwn yn dilyn trafodaethau'r Pwyllgorau â dadl lawn yn y Cyfarfod Llawn.

## Hwyluso Archwiliad o Gost Byw yng Nghymru

**C21 John Griffiths:** Pa gamau fydd y Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i hwyluso archwiliad o gost byw yng Nghymru er mwyn pennu'r incwm isaf sydd yn gallluogi pobl 'i fyw bywydau cynhwysol'? (OAQ3699)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Byddai angen casglu unrhyw gymariaethau ar y gost byw gymharol ar sail gyson drwy y DU. Adlewyrchir newidiadau yng nghost byw yn mynegai prisiau adwerthol,a gesglir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Nid yw amcangyfrifon ar gael ar gyfer Cymru ar wahân ond deallwn fod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn bwriadu ymgynghori â defnyddwyr ystadegau rhanbarthol ynghylch eu hanghenion a'u blaenoriaethau.

## Hyrwyddo Dinasyddiaeth Weithredol (Pobl Ifanc)

**C22 Richard Edwards:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd ar gyfer hyrwyddo'r syniad o ddinasyddiaeth weithredol ymysg pobl ifanc Cymru? (OAQ3696)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae amrediad o fentrau ar waith gan y Cynulliad sydd yn hybu dinasyddiaeth weithredol ymysg pobl ifanc. Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i Ann Jones ar OAQ3179 ar 1 Chwefror.

At hynny, heddiw gwelir lansio Timebank—syniad ac iddo gryn botensial, a ddatblygwyd gan grŵp o fudiadau gwirfoddol ynghyd â'r BBC, i annog pobl i roi o'u hamser. Ddydd Iau 2 Mawrth, bydd Jane Hutt yn annerch cynhadledd o wirfoddolwyr yng Nghaerdydd ynghylch hybu gwirfoddoli yng Nghymru o dan thema'r gymuned weithredol.

**Canllawiau ar Lwfansau Cynghorwyr**

**C23 David Melding:** A yw'r Cyngor Partneriaeth wedi trafod rhoi canllawiau ar waith mewn perthynas â lwfansau cynghorwyr yng Nghymru? (OAQ3714) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Allgáu Cymdeithasol (Ariannu Gwasanaethau Craidd)**

**C24 Mick Bates:** Wrth gydnabod yr angen i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol yng Nghymru, pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn ag ariannu gwasanaethau craidd yng Nghymru? (OAQ3729)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod amrediad eang o faterion sydd yn effeithio ar Gymru. Ymhlith y rhain y mae materion ariannol a'r blaenoriaethau a nodir yng nghynllun strategol drafft y Cynulliad, sydd yn cynnwys cynhwysiant cymdeithasol.

**Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn dod i ben (Goblygiadau Ariannol i'r Cynulliad)**

**C25 Alun Cairns:** Beth yw'r goblygliadau ariannol cyffredinol i'r Cynulliad o safbwynt cynnal a chadw a rhedeg Bae Caerdydd a'r morglawdd ar ôl i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ddod i ben? (OAQ3694)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nod y Cynulliad yw cynnwys arian olynu oddi mewn i linell sylfaen y grant cymorth o £17.4 miliwn am 2000-01, unrhyw swm y cytunir i'w ddwyn ymlaen am brosiectau sydd heb eu cwblhau, a £23.9 miliwn ym mhob blwyddyn ddiweddarach.

**Fformwla Barnett (Grant Bloc Cymreig)**

**C26 Christine Humphreys:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â pharhau i ddefnyddio fformwla Barnett ar gyfer cyfrif y grant bloc Cymreig? (OAQ3730)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod amrediad eang o faterion sydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys yr holl faterion ariannol. Nid oes bwriad ar hyn o bryd i newid y trefniadau ariannu ar gyfer Cymru.

**Allgáu Cymdeithasol ('Gwell Cymru')**

**C27 Helen Mary Jones:** Sut y bydd y fframwaith polisi a amlinellir yn 'Gwell Cymru' yn ymafael â'r problemau penodol o anfodlonrwydd ac allgáu cymdeithasol ymysg pobl ifanc yng Nghymru? (OAQ3716)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae 'Gwell Cymru' yn cynnwys llawer o ffyrdd o ddelio ag allgáu cymdeithasol ymhlith pobl ifanc. Fe gyfeiriaf isod at rai o'r enghreifftiau mwyaf arwyddocaol.

Maent yn cynnwys gweithgareddau wedi'u hanelu at wella cyrhaeddiad, cefnogi teuluoedd a chymunedau, yn unol â meincnodau 'Cymru 2010' ar ddysgu a dinasyddiaeth. Fe'u ceir ar dudalen 12 y ddogfen. Mae'r rhain yn cynnwys mentrau i wella mynediad at addysg a hyfforddiant a chyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant, a fydd yn sicrhau bod pob person ifanc sydd yn gadael yr ysgol yn mynd i addysg bellach ac uwch neu'n cael hyfforddiant mewn gwaith. Ceir manylion pellach ynglyn â'r mentrau hyn ar dudalen 16, lle ceir disgrifiad o'r camau i'w cymryd gan Yrfaoedd Cymru a'r Cynllun Porth Ieuenctid ac ystod o gynigion i'w gweithredu gan y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant newydd, rhaglen prentisiaethau modern estynedig a lleoliadau ychwanegol ar gyfer myfyrwyr dan ddarpariaethau newydd y cronfeydd mynediad.

Rhoddir pwyslais sylweddol ar gynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau. Bydd y dull strategol o ddelio â gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn sefydlu fframwaith cydlynol i werthoedd ac egwyddorion ar gyfer cynllunio a chyflwyno gwasanaethau. Yn rhan o'r trefniadau cynllunio ar gyfer cyflwyno'r strategaeth ceir trefniadau ar gyfer cynnwys pobl ifanc yn lleol yn y broses gynllunio.

Mae'r adran ar hybu dinasyddiaeth weithredol, creadigrwydd a mentergarwch ar dudalen 16 hefyd yn cyfeirio at waith uned bolisi'r Cynulliad, sy'n cynnal astudiaeth ar hyn o bryd ymhlith pobl ifanc ar bennu ffyrdd o wella dulliau lleol o roi cefnogaeth, cyngor a chyfarwyddyd i bobl ifanc.

Ceir camau hefyd, yn unol â'r amlinelliad a geir ar dudalen 17, i annog pobl ifanc o gefndiroedd wedi'u hallgáu i roi mwy o lais i bobl ifanc a'u hannog i gymryd rhan, er enghraifft trwy fentrau fel Young Voice/Llais Ifanc a mwy o gyfleoedd ymgynghori trwy'r fewnrwyd. Mae'n bwysig bod barn a dymuniadau pobl ifanc sydd wedi'u hallgáu yn cael eu hystyried yn llawn.

Mae Pennod 5, 'Gwell Economi, Economi Gryfach', yn cyfeirio at elfennau o'r Fargen Newydd a bydd yn cynorthwyo 30,000 o bobl ifanc dan 25 i symud oddi wrth fudd-daliadau at waith. Mae hefyd yn disgrifio gwaith i'w wneud mewn ardaloedd difreintiedig dan Amcan 1 i ostwng lefelau diweithdra ac anweithgarwch ymhlith pobl ifanc a lleiafrifoedd croenddu ac ethnig.

Nodir anghenion pobl ifanc mewn gofal ym Mhennod 6 yn y sylwadau ynglŷn ag ymrwymiad i wella lles a chyrhaeddiad addysgol ac amddiffyn unigolion yn unol â'r rhaglen Plant yn Gyntaf. Rhoddir mwy o flaenoriaeth i'r anghenion hyn wrth benodi comisiynydd plant i fod yn gyfrifol am siarad ar ran hawliau plant Cymru.

Ym Mhennod 7, ceir cyfeiriadau at droseddau gan bobl ifanc a'r angen i rwystro pobl ifanc rhag ymddwyn yn anghymdeithasol. Fe nodir rôl Cronfa Partneriaeth Plant ac Ieuenctid—sef £25 miliwn—sydd yn cefnogi sefydlu cynlluniau lleol i gynnig gweithgareddau adeiladol i'r perwyl hwn.

Ceir camau pellach ar droseddau pobl ifanc ac allgáu cymdeithasol yn gynt yn y cynllun. Mae meincnod 13 ar dudalen 13 yn cyfeirio at lefelau camddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc, ac fe ymdrinnir â hynny yn strategaeth camddefnyddio sylweddau Cymru, a fydd yn cael ei lansio maes o law. Nod y gwaith hwn yw adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi'i wneud yng Nghymru, a bydd yn cynnal pwyslais ar gynorthwyo plant a phobl ifanc i wrthod camddefnyddio sylweddau er mwyn cyflawni eu llawn botensial mewn cymdeithas.

Yr wyf wedi ceisio rhoi blas ar yr amrediad mentrau sydd yn rhan o gynllun 'Gwell Cymru', sy'n dangos y pwysigrwydd yr wyf yn ei roi ar fodloni anghenion pobl ifanc sy'n byw ar yr ymylon, a'r ffyrdd ymarferol o ymateb o ddifrif i anfodlonrwydd yr ifanc.

**Datblygu Strategaeth Gyfathrebu (Polisi a Phenderfyniadau'r Cabinet)**

**C28 Sue Essex:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu datblygu strategaeth gyfathrebu a fydd yn galluogi pobl Cymru i feddu ar fwy o wybodaeth ynglŷn â datblygu polisi a phenderfyniadau a wneir gan y Cabinet yn y Cynulliad? (OAQ3731) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Allgáu Cymdeithasol (Diddymu Taliadau Glendid mewn Llaethdai)**

**C29 David Davies:** Pa effaith a gaiff diddymu taliadau glendid mewn llaethdai ar allgáu cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig? (OAQ3698)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cynhwysiant cymdeithasol yw un o'r prif themâu sydd yn rhedeg drwy gynllun 'Gwell Cymru' ac mae wedi arwain polisi a gweithredu ar bopeth o'r economi i iechyd. Wedi dweud hynny, ni wnâi diddymu taliadau archwilio glanweithdra mewn llaethdai yng Nghymru—gan gymryd y gallwn oresgyn problem cymorthdaliadau gwladol—ond gwahaniaeth ymylol yn incwm ffermwyr llaeth. Fodd bynnag, gyrrai neges gadarnhaol bwysig i'r diwydiant.

Mae'r Cynulliad yn cymryd camau i helpu'r sector llaeth hefyd drwy'r strategaeth amaeth-bwyd. Yn ogystal â'r grantiau prosesu a gyhoeddwyd o'r blaen ar gyfer Aeron Valley Cheese ac Associated Creameries yn Llangadog, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig grantiau prosesu ar gyfer tair hufenfa arall yn Ionawr: gwaith Associated Creameries yn Llandyrnog yng ngogledd Cymru, Ash Manor Cheese Company Ltd yn Wrecsam, a Llanboidy Cheese. Cyfanswm gwerth y grantiau hyn yw £2,240,945. Dyma'r math o weithredu fydd yn helpu llaethyddiaeth Cymru i gystadlu a goroesi.